# Cyngor Cymuned Pennal

**Clerc: Mr Huw T. Jones, Henllys, Mallwyd, Machynlleth, Powys. SY20 9HS.**
☏ **01650 531 405**
**E bost: huwjones792@btinternet.com**

1af Chwefror 2025

Annwyl Gyfaill

CYNHELIR **CYFARFOD o GYNGOR CYMUNED PENNAL Nos Wener y 7fed o Chwefror 2025 am 7.30pm** yn y Ganolfan , Pennal.

**Nodyn ar gyfer y cyhoedd.** Mae croeso i'r cyhoedd arsylwi ar gyfarfodydd y Cyngor fel arfer, gan gynnwys gwneud hynny yn rhithiol os oes angen. (Deddf Llywodraeth Lleol ac Etholiadau 2021 Adran 47 – cyfarfod aml-leoliad) . Cysyllter â'r Clerc am fanylion o leiaf 3 diwrnod llawn cyn y cyfarfod, er mwyn sicrhau fod y trefniadau priodol mewn lle.

Cysyllwch gyda mi os oes unrhyw ymholiad

Edrychaf ymlaen i'ch gweld.

Yn Gywir,

Huw T Jones

**CLERC**

**……………………………………………………………………………………………**

AGENDA

1.Gair o groeso, a sylwadau agoriadol y Cadeirydd.

Derbyn ymddiheuriadau a gwahodd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar faterion sydd ar yr agenda.

2. Cyfle i dderbyn cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda. (Bydd angen cysylltu gyda'r Clerc ymlaenllaw.)

3.Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 13eg o Ragfyr 2024 – gweler yn

4**. Materion yn codi,**

a) Materion Priffyrdd

b) Mynwent yr Eglwys – *ystyried y diweddaraf.* Hefyd ystyried gwaith adnewyddu ffens y fynwent newydd.

c) Difibrillators – *adrodd y sefyllfa ddiweddaraf.*

d) Menter y Glan – camerau CCTV

e) Baw cŵn ar y Marian

f) Bwrdd Gwybodaeth ger yr arhosfan bws.

g) Archwiliad Blynyddol asedau'r Cyngor

h) Llythyr Liz Saville Roberts AS – credyd pensiwn/taliad tanwydd ayyb

i) Effeithiau andwyol y dreth etifeddiaeth ayyb – a chais i Arweinydd Cyngor Gwynedd (hyn eisoes wedi ei wneud)

j) E-bost y Cyngor Cymuned

**5. Materion Cynllunio**

**NP5/75/272 –** Tir ger Ty Gwyn, Pennal

Codi un ty fforddiadwy a un ty marchnad agored y chreu mynedfa newydd gerbydol, mannau parcio a throi a gwaith cysylltiedig

6.**Materion Cyllid.**

a) Balansau cyfrifon y Cyngor.

b) Anfonebau;

Archwilio Cymru - Ffioedd archwilio 2022/23 - £200

c) Ceisiadau am arian

- Ambiwlans Awyr Cymru
- Theatr Bara Caws

d) Hawlio treuliau gan Gynghorwyr

7**.Gohebiaeth**

- Dyddiadau hyfforddiant Un Llais Cymru
- Gohebiaeth Siân Gwenllian AS a'r ymgyrch i sefydlu Ysgol Ddeintyddol ym Mangor

8. **Unrhyw fater arall**